



Mr J Harland  
Rheolwr Polisi Cynllunio  
Gwasanaeth Polisi Cynllunio  
Conwy County Borough Council  
26 Stryd y Castell  
Conwy  
LL32 8AY

Eich cyf :  
Ein cyf :

Dyddiad : 12/10/12

Annwyl Syr,

## **Cynllun Datblygu Lleol Conwy – Newidiadau Ffocws**

Diolch am eich llythyr ymgynghori ynghylch y Newidiadau Ffocws ac am gyflwyno'r dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol (28/08/2012).

Mater i'r Arolygydd Cynllunio a benodir fydd penderfynu a fydd cynllun yn cael ei ystyried yn 'gadarn'.

Wrth ystyried y newidiadau ffocws a'u rhan yn y broses o baratoi cynllun, y mae Cylchlythyr CL-01-2009 yn egluro'u pwrpas yn glir, sef yn benodol eu bod yn briodol mewn achosion eithriadol yn unig. Er y cydnabyddir bod angen y newidiadau hyn, y mae hyd a nifer y newidiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn bryder. Pwrpas cyhoeddi newidiadau ffocws yw i wneud rhai cywiriadau penodol ac ni ddylent ddod yn broses ynddynt eu hunain. Dylai'r newidiadau ffocws gael eu cadw i'r isafswm, o ran eu nifer ac o ran eu hailadrodd.

Ystyrir y Newidiadau Ffocws yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed ynghylch y Cynllun wedi'i Adneuo ac yn unol â'r profion ynghylch cysondeb, cydlynad ac effeithiolrwydd (yn bennaf i fesur a roddwyd ystyriaeth foddhaol i'r polisi cynllunio cenedlaethol - prawf C2).

Yn benodol, byddem yn tynnu eich sylw at yr angen i ystyried a yw'r materion canlynol wedi eu hystyried yn llawn:



y cyfiawnhad dros y rhagamcanion poblogaeth a thai newydd a gynhyrchir yn lleol ac o ganlyniad cadernid y lleihad yn yr angen am dai, gan gynnwys y ddarpariaeth is o dai wrth gefn.

Diffyg dyrannu safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac a fydd digon o ymrwymiad i ddatrys y mater hwn mewn cydweithrediad â'r awdurdodau cyfagos. Mae'r perfformiad o ran cwblhau'r astudiaeth anghenion rhanbarthol yn fater o bryder difrifol.

natur heriol ac, o ganlyniad, y gallu i gyflawni'r gofynion o ran tai fforddiadwy a mannau agored ac a yw'r polisïau yn cael eu mynegi yn y ffordd fwyaf priodol.

bod asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wedi'i gynnal wrth baratoi'r cynllun ar gyfer y gwahanol fathau o ddarpariaeth (gan gynnwys safleoedd ar hap) i diwallu anghenion tai a chyflogaeth, a bod unrhyw asesiad pellach yn ymwneud yn unig â chynigion cwbl eithriadol neu fel sail ar gyfer mesurau lliniaru priodol.

Yn ychwanegol, pe bai rhagor o eglurdeb o ran y tir cyflogaeth dros ben sydd ar gael ar gyfer cyflawni gofynion trin gwastraff posibl, y rheswm dros yr angen i ddyrannu tir amaethyddol BMV a sut mae datblygiadau sensitif mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd o dan TAN 15 C1/2 wedi'u hosgoi, byddai hynny'n dangos yn well sut mae'r cynllun yn ymateb i'r polisi cenedlaethol.

Eglurwn y pryderon hyn a rhai eraill yn yr atodlen sydd ynghlwm, sydd hefyd yn nodi a yw'r newidiadau ffocws yn ateb i'r materion a godwyd yn ein sylwadau ynghylch y cynllun wedi'i adneuo. Nid ydym wedi gwneud unrhyw sylw lle nad yw newid ffocws neu newidiadau golygyddol bychain yn ymateb i'n sylwadau blaenorol ynghylch y cynllun wedi'i adneuo a lle nad ydym yn gwrthwynebu'r newid sydd wedi'i gynnig.

Yn gywir

Mark Newey  
Pennaeth y Gangen Cynlluniau  
Yr Is-adran Gynllunio

**(atodiad yn amgaaedig)**